PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd

# Polisi Anifeiliaid ar y Campws

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu arweiniad manwl ar bolisi a threfn Prifysgol Aberystwyth ar bresenoldeb anifeiliaid ar ei Hystad. Cyfrifoldeb yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn. Nod y polisi yw cynorthwyo i dynnu sylw myfyrwyr, staff ac ymwelwyr at y gwasanaethau a gynigir i gynorthwyo anifeiliaid sydd ar y Campws am resymau dilys ac i nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y gellir dod ag anifeiliaid i Ystad y Brifysgol.

## Polisi

Polisi'r Brifysgol (yn amodol ar eithriadau cyfyngedig) yw na chaniateir anifeiliaid ar eiddo'r Brifysgol, gan gynnwys llety preswyl, gweithleoedd, cerbydau, a thiroedd. Yn ogystal â hyn:

- Ni ddylid gadael anifeiliaid mewn cerbydau sydd wedi'u parcio ar y campws.
- Ni ddylid clymu anifeiliaid y tu allan i adeiladau.
- Ni chaniateir anifeiliaid ar ein meysydd chwarae na'n cyfleusterau chwaraeon.

## Eithriadau

- Anifeiliaid (cŵn fel arfer) a ddefnyddir i ddarparu hyfforddiant i fyfyrwyr ar unrhyw gynllun gradd yn y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth.

- Anifeiliaid cymorth i bobl anabl.

- Anifeiliaid cymorth ar gyfer iechyd a lles staff a/neu fyfyrwyr.

- Anifeiliaid cymorth sy'n ymgymryd â hyfforddiant cymeradwy.

- Anifeiliaid gwaith a gymeradwyir gan y Brifysgol;

- Anifeiliaid gwasanaeth argyfwng sydd ar ddyletswydd;
- Ymwelwyr sy'n cerdded ar y llwybrau cyhoeddus trwy dir y Brifysgol.
- Pobl sy'n ymweld â'r Brifysgol ar gyfer digwyddiadau fel Diwrnodau Agored, y Graddio ac ati.

**Eithriadau o ran ymwelwyr**

Gwerthfawrogir ei bod yn anodd iawn plismona polisi o'r fath mewn perthynas ag ymwelwyr ar y campws, ac felly bwriedir darparu arwyddion wedi'u gosod yn strategol a fydd yn eu hysbysu ynglŷn â'u cyfrifoldebau. Yn ogystal â hyn, bydd yr arwyddion yn cyfeirio'r perchnogion at y polisi hwn i gael gwybodaeth bellach. Ni fydd y Brifysgol yn darparu biniau gwastraff anifeiliaid fel arfer oherwydd disgwylir i'r perchnogion reoli hyn yn annibynnol, ac nid oes gan y Brifysgol adnoddau i wagio biniau o'r fath. Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser ac ni chaniateir iddynt fynd i mewn i unrhyw adeiladau.

**Anifail gwaith cymeradwy**

Anifail sy'n darparu gwasanaethau eraill o fewn y Brifysgol megis Ci Defaid.

**Y Ganolfan Addysg Milfeddygaeth**

Bydd yr adran yn rheoli pob anifail sy'n cael eu dwyn i mewn i'w hadeiladau yn annibynnol, ond yn unol â'r polisi hwn.

- Byddant yn sicrhau, pan fyddant yn defnyddio anifeiliaid staff yr adran eu hunain ac yn dod â hwy i'r campws, bod cofnod yn cael ei gadw, a bod yr holl staff perthnasol yn cael eu hysbysu ac yn cytuno. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw alergeddau neu ofnau sydd gan y staff yn cael eu hystyried.
- Bydd yr adran yn gyfrifol am unrhyw ddifrod i osodiadau a ffitiadau.
- Bydd unrhyw garthion anifeiliaid yn cael eu symud oddi ar safle'r Brifysgol i'w gwaredu.
- Dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn bob amser tra byddant ar dir y Brifysgol.

**Iechyd a Lles**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod bod llawer o bobl yn profi manteision iechyd a lles trwy ryngweithio ag anifeiliaid. Byddwn yn cefnogi digwyddiadau megis Diwrnodau Anwesu Cŵn a drefnir gan Undeb y Myfyrwyr yn ystod cyfnodau'r arholiadau. Rhaid rhoi gwybod i'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd am unrhyw ddigwyddiadau ymlaen llaw.

**Anifeiliaid Cymorth**

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r trefniadau y mae'r Brifysgol yn eu gwneud i ddarparu amgylchedd croesawgar a diogel i anifeiliaid cymorth a'u perchnogion. Cyfrifoldeb y rheolwr llinell yw sicrhau bod staff a chanddynt anifeiliaid cymorth yn ymwybodol o'r

polisi hwn. Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn fel rhan o'r drefn derbyn myfyrwyr.

## Ymdrin ag Anifeiliaid Cymorth a'u Perchnogion

Dylai staff, myfyrwyr ac ymwelwyr nodi bod anifeiliaid cymorth yn gweithio; maent yn cyflawni tasgau i gynorthwyo pobl anabl - ***ni*** ddylai pobl eraill eu trin fel anifeiliaid anwes.

- Peidiwch â galw, dychryn, tynnu sylw, bwydo, mwytho na chanmol yr anifail tra ei fod yn gweithio gan fod angen iddo ganolbwyntio ar ei berchennog. Trwy dynnu sylw'r anifail gallech beryglu'r perchennog ac/neu'r anifail.
- Peidiwch â thynnu sylw'r perchennog tra bo'r anifail yn gweithio.
- Peidiwch â gwahanu neu geisio gwahanu anifail cymorth oddi wrth y sawl sy'n defnyddio gwasanaeth yr anifail.

## Diffiniad o Anifail Cymorth

At ddibenion y polisi hwn, diffinnir anifail cymorth (ci fel arfer) fel anifail sydd wedi cael ei hyfforddi'n benodol i gynorthwyo pobl a chanddynt anabledd. Bydd wedi cael ei gofrestru gyda *Assistance Dogs UK* (ADUK), neu gymdeithas gyfatebol mewn gwlad arall.

Mae ADUK yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

- Canine Partners
- Assistance in Disability Dog AID
- Guide Dogs
- Dogs for Good
- Hearing Dogs for Deaf People
- Medical Detection Dogs
- Support Dogs
- The Seeing Dogs Alliance

Cynghrair wirfoddol o elusennau achrededig yn ymwneud â chŵn cymorth yw Assistance Dogs UK.

Mae pob elusen sy'n aelod o ADUK wedi pasio proses achredu sy'n cwmpasu eu gwaith i hyfforddi anifeiliaid yn ogystal â'u gwaith gweinyddol.

Mae pob anifail ADUK yn gwisgo siaced neu dennyn â logo ffurfiol er mwyn eu hadnabod, ac mae ganddynt lyfryn adnabod melyn oddi wrth un o aelod sefydliadau ADUK. Mae'r llyfr adnabod hwn yn cynnwys gwybodaeth am y perchennog a'r ci, a manylion am y sefydliad hyfforddi a hyfforddodd y ci a'i berchennog.

## Mathau o Gŵn Cymorth

Cŵn tywys – cynorthwyo pobl sy’n ddall neu sydd â nam ar eu golwg.

Cŵn clywed – cynorthwyo pobl sy’n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw.

Cŵn cymorth/Cŵn ar gyfer pobl sydd ag anabledd – sy’n darparu cymorth ar gyfer nifer o dasgau y gall eu perchnogion eu cael yn anodd, megis:

- Agor a chau drysau;
- Galw ambiwlans;
- Codi gwrthrychau;
- Cynorthwyo’r perchennog i wisgo a dadwisgo;
- Mynd gyda’u perchennog wrth gyflawni tasgau beunyddiol megis siopa;
- Gweithredu fel cynhaliad corfforol;
- Rhybuddio/hysbysu pan fo rhywbeth o’i le;
- Gweithredu botymau rheoli;
- Cynnau a diffodd goleuadau;
- Cario eitemau;
- Llwytho a dadlwytho peiriant golchi;
- Mynd i nôl y ffôn ac eitemau eraill.

Mae cŵn rhybudd ffitiau/cŵn canfod meddygol wedi’u hyfforddi i ymddwyn mewn modd penodol pan maent yn synhwyro y gallai eu perchennog fod ar fin cael ffit, a gallai hyn ymddangos fel camymddwyn i eraill.

Mae cŵn cymorth awtistiaeth wedi cael eu hyfforddi i ddiogelu eu perchnogion ac i fod yn gwmni iddynt, sy’n hybu annibyniaeth ac yn lleihau straen.

**Anifeiliaid cymorth emosiynol neu anifeiliaid therapi**

Mae ci therapi yn derm cyffredinol, ac mae’n cael ei ddefnyddio’n aml i ddisgrifio ci a ddefnyddir i gynorthwyo pobl mewn modd therapiwtig. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau posibl gydag ystod eang o bobl a chleientiaid. Mae rhai anifeiliaid anwes yn cymryd rhan mewn rhaglenni ymweld, tra bo eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau strwythuredig yn rhan o raglen neu ymarfer therapiwtig. Nid yw cŵn therapi yn y DU yn cael eu hystyried yn gŵn cymorth – mae hyn oherwydd bod cŵn cymorth yn cael eu hyfforddi i gyflawni tasgau penodol i gynorthwyo person anabl ac maent fel rheol wedi’u cymhwyso gan un o’r sefydliadau elusennol sydd wedi’u cofrestru’n aelodau o Assistance Dogs UK.

Mae gan gi cymorth ganiatâd cyfreithiol i fynd gyda’i gleient, perchennog, neu bartner, bob amser ac i bob man, o fewn y Deyrnas Unedig. Nid oes gan gi therapi yr un breintiau cyfreithiol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i anifeiliaid cymorth cofrestredig yn unig. Bydd unrhyw geisiadau i gael anifail therapi neu anifail cymorth yn bresennol ar y campws yn destun trefniant ar wahân a phenodol. Os rhoddir caniatâd i gael anifail cymorth emosiynol neu anifail therapi mewn llety myfyrwyr, mae'n hanfodol bod y myfyriwr yn sicrhau bod yswiriant digonol yn ei le cyn symud i mewn. Bydd angen darparu copi o'r polisi yswiriant.

**Cyfrifoldebau'r perchennog**

Cyn dod i'r Brifysgol, rhaid i berchnogion anifeiliaid cymorth ofyn i'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd am ganiatâd i ddod â'u hanifail i safle'r Brifysgol. Bydd angen iddynt ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r anifail a'i dasgau/ddyletswyddau, a'i anghenion o ran lles.

Dylid sicrhau bod anifeiliaid cymorth yn hawdd i'w hadnabod bob amser trwy ddefnyddio'r coleri, siacedi, tenynnau neu harneisiau cofrestredig pan maent ar ddyletswydd.

Cyfrifoldeb y perchnogion yw sicrhau bod ganddynt yswiriant atebolrwydd llawn ar gyfer eu hanifeiliaid cymorth, a rhaid darparu copi dilys i'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd.

Dylai perchnogion anifeiliaid cymorth barchu'r cyfyngiadau mynediad a osodir gan y Brifysgol ar sail iechyd a diogelwch. Dylai perchnogion sicrhau nad yw anifeiliaid cymorth yn mynd i mewn i fannau preifat penodedig ar gyfer staff a myfyrwyr, megis ystafelloedd gwely a fflatiau mewn neuaddau preswyl, heb ganiatâd.

Cyfrifoldeb y perchennog yw atal a chywiro unrhyw gamymddygiad gan anifail cymorth. Dylai perchnogion sicrhau nad yw eu hanifeiliaid cymorth yn achosi unrhyw niwed neu anaf i eraill na difrod i eiddo'r Brifysgol. Dylai perchnogion sicrhau bod yr anifail yn ymddwyn mewn modd priodol bob amser i osgoi tarfu ar eraill.

Nid yw'n ofynnol i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall lanhau ar ôl eu cŵn tywys ond disgwylir iddynt fod wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i osgoi gwastraff cŵn ar y Campws.

Mae pobl sy'n defnyddio anifeiliaid cymorth yn rhannu'r cyfrifoldeb am lanhau gwastraff yr anifail, o fewn rheswm ac yn gydnaws â'u gallu. Dylai perchnogion ddefnyddio'r ardaloedd dynodedig a nodir gan y Brifysgol, gan sicrhau nad yw'r anifail yn baeddu'r adeiladau, y llwybrau na'r tir ar y Campws. Os digwydd i'r anifail faeddu y tu allan i'r ardaloedd dynodedig, dylai'r perchennog roi gwybod i'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd a fydd yn trefnu bod yr ardal yn cael ei glanhau'n drylwyr.

Cyfrifoldeb y perchennog yw gofalu am yr anifail. Dylai'r perchennog sicrhau bod yr anifail yn cael archwiliadau iechyd a brechiadau rheolaidd, a'i fod yn cyrraedd safon glendid boddhaol. Rhaid i berchnogion sicrhau bod anghenion yr anifail cymorth, o safbwynt bwyd, diod a thoiled, yn cael eu bodloni'n llwyr. Dylai perchnogion sicrhau bod cŵn cymorth yn cael eu cadw ar dennyn bob amser wrth gerdded o gwmpas y

Campws neu wedi'u harneisio'n ddiogel os byddant yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth am gyfnodau byr.

Gofynnir i berchnogion anifeiliaid cymorth sy'n sâl, sydd ag iechyd gwael, neu sy'n eithriadol o fudr neu anniben fynd â'r anifail oddi ar safle'r Brifysgol.

Nid yw Prifysgol Aberystwyth yn gyfrifol am anifeiliaid cymorth sy'n mynd ar goll, mynd yn sâl, neu'n marw.

Y perchenogion sy'n gyfrifol am anghenion hyfforddi eu hanifeiliaid cymorth, fel bod modd iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn gywir ac yn ddiogel.

Cyfrifoldeb y perchennog yw sicrhau bod ganddynt bolisi yswiriant digonol yn ei le.

**Cyfrifoldebau ac ystyriaethau Prifysgol Aberystwyth**

Pan fo anifeiliaid cymorth ar eiddo'r Brifysgol, bydd angen cytuno ar ganllawiau rhesymol sy'n benodol i'r safle gyda'r perchennog. Bydd y rhain yn cael eu llunio gan Gyfarwyddwr yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar y cyd â'r Penaethiaid Adran perthnasol (ar gyfer aelodau staff), a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr (ar gyfer myfyrwyr) a defnyddiwr yr anifail cymorth, a byddant yn ymdrin â phwyntiau penodol, er enghraifft mynediad i ardaloedd agored cymunedol. Rhaid i'r sawl sy'n defnyddio anifeiliaid cymorth gydymffurfio ag amodau'r canllawiau hynny.

Bydd y Brifysgol yn ystyried darparu carthfannau a phowlenni dŵr ar gyfer anifeiliaid cymorth. Bydd yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd yn cynnal yr ardal hon mewn cyflwr sy'n sicrhau iechyd yr anifail a diogelwch y perchennog. Byddant hefyd yn darparu cyfleusterau i gael gwared ar wastraff (ar gyfer cŵn cymorth yn unig).

Byddai'r carthfannau yn cael eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol â'r canllawiau a roddir yn BS8300-2:2018 (Buildings) a chanllawiau Guide Dogs ar ddarparu carthfannau ar gyfer cŵn tywys a chŵn cymorth eraill http://www.guidedogs.org.uk

**Ymgyfarwyddo â'r campws fel rhan o raglen gyflwyno.**

Pan fo gan fyfyriwr preswyl anifail cymorth, mae'r Swyddfa Llety yn gyfrifol am hysbysu'r myfyrwyr eraill yn y llety sy'n debygol o ddod i gysylltiad â'r anifail cymorth, a gofyn iddynt gadarnhau na fyddai presenoldeb yr anifail yn cael effaith andwyol arnynt.

Bydd y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn cynghori myfyrwyr sydd ag anifeiliaid cymorth ac yn eu cyfeirio at y polisi hwn i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cymorth a ddarperir gan y Brifysgol yn ogystal â'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Bydd y

Gwasanaethau i Fyfyrwyr yn cysylltu ag adran academaidd a llety'r myfyriwr i sicrhau bod unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen wedi cael eu gwneud.

Bydd Cymorth i Fyfyrwyr ac Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gysylltu â'r myfyriwr/aelod staff/darparwr yr anifail cymorth parthed hyfforddiant ar sut i ymdrin â chŵn cymorth.

Mae'r Brifysgol yn hapus i wrando ar awgrymiadau perchnogion anifeiliaid cymorth o ran sut y gellir gwella'r ddarpariaeth ar gyfer yr anifail cymorth.

**Cwynion ynglŷn ag anifeiliaid ar y campws**

Os bydd myfyriwr neu aelod o staff sydd ag anifail cymorth yn dymuno gwneud cwyn am y ffordd y cawsant hwy neu eu hanifail eu trin, neu os bydd myfyriwr neu aelod o staff yn dymuno gwneud cwyn neu fynegi pryder ynglŷn ag anifail ar y Campws, dylent roi gwybod i'r Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd trwy anfon e-bost at efastaff@aber.ac.uk neu, ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn llety'r brifysgol, at llety@aber.uk Bydd hyn yn cael ei godi gyda'r unigolyn a'i reolwr llinell/Pennaeth Adran/Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr. Gwneir pob ymdrech i ddatrys y mater yn anffurfiol gyda'r perchennog, gan gynnwys darparu cyfryngu priodol lle bo angen. Os na ellir datrys y mater yn anffurfiol, neu os na chydymffurfir â'r datrysiad anffurfiol, caiff y mater ei uwch-gyfeirio ac ymdrinnir ag ef naill ai trwy'r drefn disgyblu staff neu'r drefn disgyblu myfyrwyr.

Y peryglon a'r pryderon sy'n deillio o gael anifeiliaid ar safle'r Brifysgol yw:

- Adweithiau alergol a throsglwyddo afiechydon
- Gwrthwynebiadau crefyddol
- Swffobia (ffobia o anifeiliaid sy'n peri gofid neu drafferthion i unigolyn yn ei fywyd bob dydd)
- Perygl o lithro, baglu neu gwympo
- Gwastraff anifeiliaid
- Difrod i eiddo'r Brifysgol
- Achosi oedi wrth adael adeilad mewn argyfwng
- Anifeiliaid yn ymddwyn yn ymosodol

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw anifail os torrir y polisi hwn yn rheolaidd.

Os byddwch yn darganfod anifail (ac eithrio'r rhai yr ymdrinnir â hwy yn y pwyntiau uchod) yn unrhyw un o adeiladau, tiroedd neu gerbydau'r Brifysgol, hysbyswch –

**Diogelwch y Safle ar 01970 622649 (x 2649 o ffôn mewnol) neu anfonwch e-bost at sitesecurity@aber.ac.uk**

Yn achos ci neu lwynog strae, ni ddylid ceisio dal na ffrwyno'r anifail - arhoswch nes bod cymorth yn cyrraedd os gwelwch yn dda.
*DS At ddiben y polisi hwn cyfeiriwyd at anifeiliaid fel 'anifeiliaid' ond mae'n debygol mai ci fydd hyn mewn llawer o achosion.*

| | |
|---|---|
| Diweddarwyd y polisi gyda chymorth AccessAble | Ionawr 2022 |
| Adolygiad heb unrhyw ddiwygiadau | Ebrill 2024 |